



Cyngor Dinas Casnewydd Cynllun Tywydd Garw

Fersiwn 3

DYDDIAD: Gorffennaf 2020

CYNNWYS		Tudalen
	<u>DIWYGIADAU A RHEOLI'R DDOGFEN</u>	3
1	<u>CEFNDIR</u>	4
2	<u>NOD</u>	4
3	<u>AMCANION</u>	4
4	<u>CWMPAS</u>	4
5	<u>DYLETSWYDDAU DEDDFWRIAETHOL</u>	5
6	<u>PARATOI CORFFORAETHOL</u>	5
7	<u>NEGESEUON ALLWEDDOL</u>	6
8	<u>DIFFINIAD A'R RISG O DYWYDD GARW</u>	6
9	<u>GWEITHREDIADAU</u>	7
10	<u>SYSTEMAU RHYBUDDIO</u>	8
10.6	<u>CYFOETH NATURIOL CYMRU (CNC)</u>	10
10.7	<u>CYNGOR IECHYD CYHOEDDUS CYMRU (ICC) AR DYWYDD EITHAFOL</u>	10
10.8	<u>CYNGOR DINAS CASNEWYDD</u>	11
11	<u>GWASANAETHAU'R DDINAS - RHAGOLYGN Y TYWYDD A MONITRO</u>	12
12	<u>RHEOLI DIGWYDDIADAU</u>	12
13	<u>ASESU A GWEITHREDU</u>	12
14	<u>CYFATHREBU</u>	13
14.2	<u>CYFATHREBU CORFFORAETHOL</u>	13
14.3	<u>YSGOLION</u>	15
15	<u>GRAEANU A CHLIRIO EIRA</u>	15
15.1	<u>GWASANAETHAU'R DDINAS</u>	15
15.2	<u>BLAENORIAETHU LLWYBRAU</u>	17
15.3	<u>CERBYDAU 4X4</u>	17
16	<u>ADEILEDDAU A CHOED PERYGLUS</u>	19
17	<u>MANYLION CYSWLLT</u>	19
18	<u>CYSYLLTIADAU Â GWIRFODDOLWYR</u>	19
19	<u>IECHYD A DIOGELWCH (IaS)</u>	19

<u>20</u>	<u>CYLLID</u>	20
<u>21</u>	<u>GWASANAETHAU CYFATHREBU A GWYBODAETH</u>	21
<u>22</u>	<u>ADFERIAD</u>	21
<u>23</u>	<u>ISRADDIO/CANSLO'R DIGWYDDIAD</u>	21
<u>24</u>	<u>ÔL-DRAFODAETH</u>	21
	<u>ATODIAD A</u>	22
	AGENDA DRAFFT AR GYFER CYFARFOD CYCHWYNNOL Y TÎM YMATEB I ARGYFYNGAU	22
	STRATEGAETH GORFFORAETHOL - PWYNTIAU I'W HYSTYRIED	23
	<u>ATODIAD B</u>	24
	SIART LIF ARWEINIOL AR GYFER GOFYN AM GYMORTH 4X4	24
	<u>ATODIAD C</u>	25
	CEISIADAU AM GYMORTH 4X4	25
	<u>ATODIAD D</u>	26
	CEISIADAU CYN-GOFRESTREDIG 4X4 AM GYMORTH.....	26
	<u>ATODIAD E</u>	27
	DOGFENNAU CYFEIRIO ALLWEDDOL	27

DIWYGIADAU A RHEOLI'R DDOGFEN

Datblygwyd y cynllun hwn gan Uned Argyfyngau Sifil (UAS) Cyngor Dinas Casnewydd (CDC). Caiff ei adolygu bob 3 blynedd neu fel y bo angen. Er mwyn sicrhau y caiff dilysrwydd y cynllun hwn ei sicrhau, mae gofyn i ddeiliaid y cynllun roi gwybod i'r UAS am unrhyw ddiwygiadau dros e-bost i:

civil.contingencies@newport.gov.uk

Bydd yr UAS yn rhoi copiâu i'r rhai ar y Rhestr Ddosbarthu isod. Bydd copiâu hefyd ar gael yn gyffredinol ar dudalen fewnrwyd CDC. Bydd pob diwygiad mawr i'r polisi'n amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet/Aelod y Cabinet.

Dyddiad	Awdur	Diwygiad	Fersiwn Bresennol
16.02.12	UAS	Rhifyn cyntaf	1.0
14.03.17	UAS	2il rifyn	2.0
01.07.20	UAS	3ydd rhifyn	3.0

RHESTR DDOSBARTHU

Prif Weithredwr
Cyfarwyddwyr Strategol (Pobl a Lle)
Penaethiaid Gwasanaeth
Cyfathrebiadau Corfforaethol
Uned Argyfyngau Sifil
Swyddogion Argyfyngau Sifil ar Ddyletswydd
Gwasanaethau'r Ddinas

Noder bod rhai dolenni gwe yn y ddogfen hon yn cyfeirio ar wefannau tu allan i realaeth y Cyngor ac yn perthyn i gyrff tu allan i gylch gorchwyl Safonau'r Gymraeg; o ganlyniad byddent yn ail-gyfeirio at wefannau / dogfennau yn y Saesneg.

1 CEFNDIR

- 1.1 Yn ystod y degawdau diwethaf, mae'r DU wedi cael mwy o dywydd garw ac mae meteorolegwyr yn rhagweld y bydd hyn yn parhau wrth i effeithiau newid yn yr hinsawdd gynyddu. Yn ogystal â'r tebygolrwydd cynyddol, mae effaith digwyddiadau o'r fath yn dod yn fwy amlwg ac felly'n cael ei hystyried o fewn y prosesau cynllunio ac ymateb.
- 1.2 Mae'r rhan fwyaf o aeafau bellach yn golygu bod llawer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Casnewydd, yn wynebu heriau wrth ddarparu eu holl wasanaethau ac mae'n rhaid rhoi trefniadau penodol ar waith i ddiogelu gwasanaethau hanfodol sydd mewn perygl. Mae'r ffyrdd yn cael eu heffeithio gan eira ac nid yw rhai pobl yn gallu cyrraedd y gwaith. Mae ysgolion yn cael eu cau, gall rhai ardaloedd fod wedi'u hynysu ac mae angen ymdrechion mawr i gadw'r prif lwybrau prifwythiennol ar agor i draffig.
- 1.3 Er bod tywydd poeth wedi bod yn llai o broblem hyd yn hyn, ceir digon o dystiolaeth (Awst 2003 yn Ffrainc – amcangyfrif o 14000 o farwolaethau ychwanegol) fod digwyddiadau o'r fath yn cael effaith sylweddol ar gymunedau ac yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, ac felly mae'n rhaid eu hystyried hefyd.

2 NOD

- 2.1 Nod y cynllun hwn yw amlinellu'r trefniadau ymateb brys i liniaru effeithiau tywydd garw yn ardal Cyngor Dinas Casnewydd.

3 AMCANION

- 3.1 Helpu pobl i fod yn ymwybodol o drefniadau tywydd garw'r Cyngor.
- 3.2 Sicrhau bod prosesau ar waith ar gyfer asesu ac o bosibl ymateb, ar lefel briodol, o fewn y Cyngor yn ystod camau cyntaf digwyddiad tywydd garw.
- 3.3 Sicrhau bod unrhyw ddigwyddiadau tywydd garw'n cael eu rheoli ar y cyd.
- 3.4 Sicrhau dull gweithredu ar y cyd â phartneriaid, yn ôl yr angen, yn ystod tywydd garw.

4 CWMPAS

- 4.1 Y mathau o dywydd garw a llifogydd y mae Llywodraeth y DU yn eu defnyddio at ddibenion cynllunio wrth gefn yw stormydd a gwyntoedd cryfion, tymheredd isel parhaus ac eira trwm, tywydd poeth, a llifogydd mawr (arfordirol, llanwol ac afonol ar raddfeydd lleol a chenedlaethol).
- 4.2 Nid yw'r cynllun hwn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â llifogydd - mae cynllun penodol wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer hynny ar hyn o bryd.

- 4.3 Mae tywydd gofod gwael - megis stormydd geomagnetig, stormydd ymbelydredd, neu fflachiau solar yn cael effaith ar y ddaear, lle ar hyn o bryd y byddai cynlluniau rheoli argyfyngau a pharhad busnes cyffredinol yn cael eu defnyddio i reoli unrhyw ymateb i effeithiau.
- 4.4 Mae trefniadau rheoli'r Cyngor ar gyfer argyfyngau a'r rhai ar gyfer ymateb ar y cyd gan asiantaethau wedi'u nodi'n fanwl mewn dogfennau eraill ac felly nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn y ddogfen hon. Yn y bôn, bydd y Cynlluniau Rheoli Argyfyngau a Pharhad Busnes Corfforaethol yn ffurfio'r sail ar gyfer ymateb CDC ar y cyd. Mae Trefniadau Ymateb i Ddigwyddiadau Mawr Gwent yn manylu ar y rheini ar gyfer cydlynu ymateb ar y cyd gan asiantaethau.
- 4.5 Mae'r cynllun hwn yn nodi'r trefniadau corfforaethol ehangach ar gyfer ymateb i dywydd garw nad ydynt wedi'u trafod yn y dogfennau cyffredinol uchod eisoes. Mae trefniadau gweithredol manwl yr ymateb hwn i'w gweld mewn amrywiaeth o ddogfennau penodol fel y nodir/cyfeirir atynt yng Nghynllun Gwasanaeth Gaeaf Corfforaethol Gwasanaethau'r Ddinas.

5 DYLETSWYDDAU DEDDFWRIAETHOL

- 5.1 Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a'r Rheoliadau (Cynllunio Wrth Gefn) 2005 ategol, yn rhoi sawl dyletswydd ar Awdurdodau Lleol. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad i gynnal cynlluniau i alluogi'r Cyngor i ymateb i argyfwng, wrth barhau â darpariaeth gwasanaeth arferol, cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl, ac i sicrhau bod pob cynllun wedi'i gefnogi gan hyfforddiant perthnasol ac yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n hyrwyddo effeithiolrwydd cynlluniau o'r fath.
- 5.2 Mae ar bob awdurdod priffyrdd ddyletswyddau statudol i sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, na pheryglir teithwyr gan eira neu rew ar y briffordd. Mae Cod Ymarfer wedi'i sefydlu ar gyfer awdurdodau priffyrdd, sy'n cynnwys cynllunio a darparu gwasanaethau dros y gaeaf. Cafodd hwn ei ddiweddarau yn dilyn adroddiadau Grŵp Cyswllt Ffyrdd y DU (UKRLG) yn 2016.

6 PARATOI CORFFORAETHOL

- 6.1 Yn unol ag egwyddorion ein Trefniadau Rheoli Argyfyngau Corfforaethol, mae'n hanfodol bod pob gwasanaeth yn rhoi trefniadau wrth gefn priodol ar waith ar gyfer tywydd garw posibl. Gall y rhain olygu bod angen i rai gwasanaethau gynorthwyo gyda'r ymateb brys a bod angen i wasanaethau eraill gynorthwyo gyda rhoi trefniadau parhad busnes ar waith i sicrhau parhad gwasanaethau hanfodol yn ystod y gwaith adfer.

- 7.1 Mae'r rhan fwyaf o'r tywydd garw yn cael ei ragweld ymlaen llaw ac mae pob uwch reolwr wedi'i gysylltu â systemau rhybuddio perthnasol.

Ceir system strwythuredig, drwy'r uwch reolwyr, ar gyfer asesu a chydlynu goblygiadau posibl a gwirioneddol tywydd garw.

Ceir amrywiaeth o gynlluniau manwl i helpu i liniaru goblygiadau tywydd garw ac i gefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu gwasanaethau a gweithredu yn y gymuned. Er enghraifft:

- Cyfathrebu – mewnol ac allanol;
- Graeanu;
- Cymorth ar ffurf cerbydau gyriant pedair olwyn ar gyfer gwasanaethau hanfodol;
- Gwasanaethau torri coed peryglus;
- Gwasanaethau rheoli adeiladau peryglus.

- 7.2 Mae iechyd a diogelwch staff a chleientiaid mewn tywydd garw yn heriol ac yn hollbwysig, sy'n gofyn am gynllunio o flaen llaw a rheoli deinamig.

- 8.1 Mae'r Swyddfa Dywydd yn defnyddio dull asesu "tebygolrwydd" ac "effaith" hyblyg. Bwriad hyn yw adlewyrchu bod effeithiau'n amrywio ar draws cymunedau ac y dylid eu hystyried ar sail ardal – gweler yr adran ar rybuddion y Swyddfa Dywydd (tudalennau 8-10).
- 8.2 Mae canllawiau'r Llywodraeth yn defnyddio disgrifiadau ar gyfer dadansoddi risg. Adlewyrchir hyn yng Nghofrestr Risgiau Cymunedol Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gwent (GLRF) sy'n dosbarthu risgiau tywydd garw fel a ganlyn:

Natur y Risg	Disgrifiad o'r Risg	Lefel y Risg
Stormydd a Thymhestloedd	Mae gwyntoedd stormus yn effeithio ar ardal am o leiaf 6 awr. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd mewndirol, iseldir, mae cyflymder y gwynt yn fwy na 55mya gyda hyrddwyntoedd o fwy na 85mya Gall fod nifer o anafiadau a marwolaethau, yn bennaf oherwydd coed, adeileddau neu falurion eraill yn cwmpo (y <i>DU gyfan</i>).	Canolig
Tymereddau Isel ac Eira Trwm	Eira yn disgyn ac yn gorwedd dros y rhan fwyaf o'r ardal am o leiaf un wythnos. Ar ôl i'r eira ddisgyn am y tro cyntaf, mae mwy o eira'n disgyn bob yn ail â pheidio am o leiaf 7 diwrnod. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd iseldir, weithiau mae mwy na 10cm o eira'n disgyn, mae dyfnder yr eira'n fwy na 30cm ac mae eira'n disgyn am o leiaf 7 diwrnod yn olynol gyda thymheredd cymedrig sy'n llai na -3°C. Byddai nifer mawr o farwolaethau ychwanegol gyda miloedd o anafiadau posibl (y <i>DU gyfan</i>).	Uchel lawn
Tywydd Poeth	Tymheredd uchaf dyddiol sy'n fwy na 28°C a thymheredd isaf sy'n fwy na 15°C dros y rhan fwyaf o'r ardal am o leiaf 2 wythnos. Bydd y tymheredd ar 5 diwrnod yn olynol yn fwy na 32°C. Hyd at 2000 o farwolaethau ychwanegol a rhwng 1000 a 2500 o anafiadau (y <i>DU gyfan</i>) yn bennaf ymysg yr henoed.	Uchel lawn
Sychder	Prinder dŵr i bobl, amaethyddiaeth, diwydiant neu'r amgylchedd ledled y wlad	Uchel

Mae'r disgrifiadau hyn yn seiliedig ar y Sefyllfa Waethaf Posibl ac ni ddylid eu hystyried fel meincnod ar gyfer diffinio tywydd garw. Yn bwysicach yw'r ffaith bod y risg sydd ynghlwm wrth ddigwyddiadau eithafol o'r fath yn gymharol uchel.

9 GWEITHREDIADAU

- 9.1 Mae gan y Cyngor amryw o systemau ar gyfer monitro tywydd garw posibl. Mae rhai o'r systemau hyn wedi'u contractio'n annibynnol, ac mae eraill yn gysylltiedig â systemau'r Swyddfa Dywydd ac Asiantaeth Amgylchedd y DU / Cyfoeth Naturiol Cymru. Maent yn rhoi cyfle i'r Cyngor, naill ai'n annibynnol, neu ar y cyd â sefydliadau partner, fel Heddlu Gwent, ragweld cyfnodau o dywydd garw a rhoi mesurau paratoadol ar waith ar gyfer ymateb yn gynaliadwy gan ddefnyddio trefniadau rheoli argyfyngau a pharhad busnes generig. Mae'r prif bwyslais ar roi mwy o gydnabyddiaeth i ddigwyddiadau o'r fath a sefydlu mesurau lliniaru priodol i'w defnyddio cyn amser yr effaith.

- 9.2 Gall fod achosion lle nad yw'r systemau rhybuddio yn arwain at sefydlu'r mesurau priodol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor ac asiantaethau partner systemau ymateb brys generig, a all gydnabod tywydd garw'n gyflym wrth iddo ddigwydd ac a all ysgogi ymateb priodol. Ar gyfer y Cyngor, mae'r rhain yn cynnwys:
- Derbyn lefel anarferol o alwadau cyhoeddus sy'n ymwneud â'r tywydd garw, drwy'r Ganolfan Gyswllt neu'r cyfleuster galwadau y tu allan i oriau, a fydd yn cael ei nodi fel y bo'n briodol gyda'r Uned Argyfyngau Sifil / adran Gwasanaethau'r Ddinas;
 - Monitro ffyrdd gan Wasanaethau'r Ddinas trwy griwiau penodol neu orsafoedd monitro o bell;
 - Gwasanaethau'r Ddinas yn derbyn galwadau am gymorth gan y gwasanaethau brys.
- 9.3 Os bydd unrhyw asiantaeth bartner, gan gynnwys CDC, o'r farn bod y sefyllfa'n achosi digon bryder, efallai y byddant yn cynnal Telegynhadledd Asesu Cyn Digwyddiad (PEAT) ac yn dilyn hyn, yn sefydlu Grŵp Cydlynu Strategol a Thactegol aml-asiantaeth ffurfiol. Gellir gwneud hyn dan Drefniadau Ymateb i Ddigwyddiadau Mawr presennol Gwent er mwyn adolygu'r sefyllfa a phenderfynu ar unrhyw gamau gweithredu priodol ar y cyd.

10 SYSTEMAU RHYBUDDIO

Nodir yn yr adran ganlynol bod sawl system rybuddio ar waith ar gyfer tywydd garw, y maent i gyd yn cael eu defnyddio gan CDC.

- 10.1 Mae'r Swyddfa Dywydd yn rhoi rhybuddion am dywydd garw, gan gynnwys glaw trwm, eira, gwyntoedd cryfion, ffyrdd rhewllyd a niwl hyd at 5 diwrnod ymlaen llaw.

Caiff y rhybuddion eu hasesu drwy edrych ar y tebygolrwydd o dywydd garw ac effeithiau posibl. Yna caiff cod lliw ei neilltuo i bob rhybudd/hysbysiad drwy ddefnyddio'r matrices canlynol.

Matrics Effaith Rhybudd

↑ Tebygol iawn Annhebygol				
		✓		
	Effaith Isel iawn	→	Effaith Uchel	

Noder fod y matrics ar gyfer diben darluniol / esboniadol yn unig. Mi fydd rhybuddion oddi wrth y Met Office yn Saesneg yn unig.

Yn amlwg rhybuddion COCH (tebygolrwydd uchel o effaith sylweddol) yw'r rhai mwyaf difrifol. Fodd bynnag, gall rhybuddion MELYN, er bod y tebygolrwydd yn llai, gael effaith sylweddol ac felly ni ddylid eu hanwybyddu.

10.2 Y negeseuon sylfaenol sy'n gysylltiedig â phob un o'r lliwiau yw:

Dim tywydd garw	Byddwch yn ywybodol	Byddwch yn Barod	Cymryd camau

10.3 Y neges sylfaenol sy'n gysylltiedig â phob lefel o rybudd yw:

Tebygolrwydd	
Uchel	Efallai y bydd angen i chi weithredu gan ein bod yn disgwyl Bydd...
Canolig	Dylem fod yn barod ar gyfer... Mae'n debygol y bydd...
Isel	Byddwch yn ymwybodol o'r potensial/posibilrwydd am... Mae siawns fach o ...
Isel lawn	Byddwch yn ymwybodol bod risg fach iawn o..

10.4 Ystyr y lliwiau:

Rhybudd Melyn: Gellir defnyddio rhybuddion melyn ar gyfer amrywiaeth o sefyllfaoedd yn ymwneud â'r tywydd. Mae llawer yn cael eu cyhoeddi pan fydd yn debygol y bydd y tywydd yn cael ychydig o effaith, gan gynnwys rhywfaint o darfu ar deithio mewn rhai manau. Efallai y bydd llawer o bobl yn gallu parhau â'u trefn ddyddiol, ond y bydd rhai yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac felly mae'n bwysig asesu a allech chi gael eich effeithio. Mae rhybuddion melyn eraill yn cael eu cyhoeddi pan fo'r tywydd yn debygol o effeithio'n ddifrifol ar y rhan fwyaf o bobl ond bod yr ansicrwydd o ran hynny'n digwydd yn llawer is. Mae'n bwysig darllen cynnwys rhybuddion melyn i gadarnhau pa fath o dywydd y mae'r rhybudd yn berthnasol iddo.

Rhybudd Oren: Mae'n fwy tebygol y bydd y tywydd gar yn cael effaith, a allai amharu ar eich cynlluniau. Mae hyn yn golygu bod posibilrwydd o oedi wrth deithio, cau ffyrdd a rheilffyrdd, toriadau pŵer a'r perygl posibl i fywyd ac eiddo. Dylech ystyried newid eich cynlluniau a rhoi camau ar waith i'ch amddiffyn eich hun a'ch eiddo. Efallai y byddwch am ystyried effaith y tywydd ar eich teulu a'ch cymuned ac a oes unrhyw beth y mae angen i chi ei wneud cyn y tywydd garw er mwyn lleihau'r effaith.

Rhybudd Coch: Disgwylir tywydd peryglus ac, os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod, dylech weithredu yn awr er mwyn cadw eich hun ac eraill yn ddiogel rhag effaith y tywydd garw. Mae'n debygol iawn y bydd perygl i fywyd, gan darfu'n sylweddol ar deithio, cyflenwadau ynni a difrod eang, o bosibl, i eiddo a seilwaith. Dylech osgoi teithio, pan fo hynny'n bosibl, a dilyn cyngor y gwasanaethau brys a'r awdurdodau lleol.

Disgrifir yr effeithiau posibl a'r cyngor cysylltiedig ar gyfer pob math o dywydd garw, yn erbyn y raddfa debygolrwydd uchod, ar wefan y Swyddfa Dywydd isod:

[Beth i'w wneud mewn tywydd garw - y Swyddfa Dywydd](#)

Bydd pob rhybudd yn ymddangos ar wefan y Swyddfa Dywydd yn:

http://www.metoffice.gov.uk/weather/uk/uk_forecast_warnings.html

- 10.5 Caiff yr holl rybuddion oren a choch a dderbynnir gan y Swyddfa Dywydd eu trosglwyddo'n awtomatig drwy e-bost o'r Uned Argyfyngau Sifil i tua 150 o reolwyr ar draws pob gwasanaeth gan gynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Strategol, Penaethiaid Gwasanaeth a Phenaethiaid. Gellir diwygio'r rhestr hon yn ôl y gofyn ar gais Gwasanaeth i Unedau Argyfyngau Sifil. Bydd dynion tywydd y cyfryngau hefyd yn cyfeirio at rybuddion pan fyddant ar waith. Caiff pob rhybudd ei fonitro gan Unedau Argyfyngau Sifil a fydd yn codi lefelau ymwybyddiaeth yn ôl yr angen.

Yn ogystal â'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, gall Unedau Argyfyngau Sifil hefyd ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol y Swyddfa Dywydd gan gynnwys rhagolygon ar y we/gwybodaeth lloeren a chyswllt uniongyrchol â dynion tywydd.

10.6 CYFOETH NATURIOL CYMRU (CNC)

Caiff llifogydd eu cwmpasu gan drefniadau wrth gefn eraill, mae'n bosibl y gallai llifogydd ddigwydd ar y cyd â'r risg y canolbwyntir arni yn y cynllun hwn, felly mae angen nodi'r canlynol:

- Mae CDC wedi'i gysylltu â system rhybuddion am lifogydd CNC trwy systemau Swyddog ar Ddyletswydd Priffyrdd ac Argyfyngau Sifil;
- Mae systemau profedig ar waith i alluogi trafodaethau aml-asiantaeth gyda CNC a'r Swyddfa Dywydd drwy delegynadleda i werthuso risg llifogydd posibl a'r gofyniad i symud at lefelau Strategol / Tactegol er mwyn asesu sefyllfaoedd a chytuno ar ymatebion. Y systemau y gellir eu defnyddio yw system telegynadleda'r Gwasanaeth Cyngori ar Lifogydd a'r system PEAT.

10.7 CYNGOR IECHYD CYHOEDDUS CYMRU (ICC) AR DYWYDD EITHAFOL

- 10.7.1 Mae ICC yn rhoi cyngor ar gyfer tywydd oer eithafol a thywydd poeth eithafol sydd ar gael drwy'r dolenni canlynol:

<https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-amgylcheddol/digwyddiadau-tywydd-eithafol/>

<https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-amgylcheddol/tywydd/>

<https://www.nhs.uk/live-well/healthy-body/heatwave-how-to-cope-in-hot-weather/>

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Hot%20Weather%20Advice%20for%20Health%20Professionals.pdf>

- 10.7.2 Yn y gorffennol roedd ICC yn cynnig system rybuddio ar gyfer cyfnodau o dywydd poeth ac oer eithafol, ond nid yw hyn ar gael mwyach. Felly, mae CDC wedi mabwysiadu sbardunau ffurfiol i asesu cyfnodau o dywydd poeth ac oer eithafol sydd ar y gorwel. Gwneir hyn drwy fonitro rhagolygon y Swyddfa Dywydd o ran y tymereddau a ddisgwylir.
- 10.7.3 Pan fydd angen asesu tymereddau poeth, mae angen ystyried hyd y cyfnod. Dyma'r diffiniad ffurfiol o dywydd poeth gan y Swyddfa Dywydd:
- "Caiff trothwy tywydd poeth y DU ei bwrw pan fydd lleoliad yn cofnodi cyfnod o dri diwrnod yn olynol o leiaf gyda tymheredd uchaf dyddiol sy'n bodloni neu'n rhagori ar y trothwy tymheredd yn ystod y tywydd poeth."*
- 10.7.4 Mewn digwyddiadau o'r fath pan fydd cyfnodau o dywydd oer a phoeth eithafol, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn:
- Rhoi cyngor priodol i'r cyhoedd yn disgrifio pa gamau y gellir eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau iechyd y cyhoedd cysylltiedig.
 - Ystyried yr angen i gyhoeddi datganiad rhagweithiol i'r cyfryngau er mwyn tynnu sylw at y cyngor.
- 10.7.5 Mae'r dogfennau canllaw ar gael ar wefan ICC uchod ac maent yn cynnwys:
- Cyngor i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol;
 - Cyngor i'r cyhoedd
 - Cyngor i'r rhai sy'n trefnu digwyddiadau cyhoeddus mawr;
 - Cyngor i'r rhai sy'n gofalu am blant.
- 10.8 CYNGOR DINAS CASNEWYDD
- 10.8.1 O ran Casnewydd, y tymheredd trothwy dyddiol a gaiff ei gofnodi fel tywydd poeth yw 26°C, sy'n para am gyfnod o dri diwrnod olynol o leiaf, fel y diffinnir gan y Swyddfa Dywydd¹.
- 10.8.2 Ar ôl bwrw'r sbardunau hyn (tymheredd sy'n debygol o gyrraedd 30°C am un diwrnod neu dymheredd sy'n fwy na 26°C am o leiaf dri diwrnod yn olynol), bydd yr Uned Argyfyngau Sifil yn trafod y sefyllfa gyda'r Swyddog Aur ar Ddyletswydd ac yn ystyried a oes angen rhannu gwybodaeth a chyngor gyda staff a'r cyhoedd.

11 GWASANAETHAU'R DINAS – RHAGOLYGN Y TYWYDD A MONITRO

- 11.1 Mae gan wasanaethau Dinas CDC gontract gyda sefydliadau sy'n rhagweld y tywydd er mwyn darparu rhagolygn penodol ar gyfer cyflwr y ffyrdd yng Nghasnewydd. Mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybodaeth fanwl am gyflyrau posibl, sy'n llywio penderfyniadau Gwasanaethau'r Ddinas o ran graeanu ffyrdd a mesurau cysylltiedig. Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd ac os oes angen, y gallu i drafod rhagolygn. Fe'i defnyddir hefyd gan yr Uned Argyfyngau Sifil a Gwasanaethau'r Ddinas i groeswiro yn erbyn rhagolygn y Swyddfa Dywydd.
- 11.2 Yn ogystal, mae Gwasanaethau'r Ddinas hefyd yn cynnal 6 gorsaf fonitro ffyrdd annibynnol a ddefnyddir i lywio penderfyniadau gweithredol. Mae'r system hon yn gysylltiedig â chynghorau cyfagos er mwyn cynnig trosolwg o lwybrau sy'n arwain tuag at ac i ffwrdd o'r Ddinas.

12 RHEOLI DIGWYDDIADAU

- 12.1 Fel y nodwyd yn flaenorol, byddai trefniadau Rheoli Argyfyngau a Pharhad Busnes y Cyngor yn cael eu gweithredu yn ôl yr angen. Yn unol â'r trefniadau hyn, bydd asesiad o'r ymateb cychwynnol priodol yn cael ei wneud gan Swyddog Aur ar Ddyletswydd CDC (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Strategol neu Bennaeth Gwasanaeth). Yn dilyn hynny, mae strwythur Tîm Ymateb Brys (TIB) yn debygol o gael ei roi ar waith er mwyn cydlynu a rheoli ymateb y Cyngor.
- 12.2 Ar lefel cyd-asiantaethol, mae Grŵp Cydlynu Strategol / Tactegol yn debygol o gael ei roi ar waith yn unol â Threfniadau Ymateb i Ddigwyddiadau Mawr Gwent.

13 ASESU A GWEITHREDU

- 13.1 Mae'r Uned Argyfyngau Sifil a Gwasanaethau'r Ddinas yn gweithredu systemau swyddogion ar ddyletswydd 24 awr annibynnol sy'n monitro ac yn asesu tywydd parhaus. Pan fo tywydd garw yn bosibl, neu pan fo rhybuddion am dywydd garw, mae trefniadau ar waith i'w galluogi i ystyried y data sydd ar gael ar y cyd.
- 13.2 Ar ôl cael rhybudd tywydd garw oren gan y Swyddfa Dywydd, bydd proses asesu ffurfiol rhwng yr Uned Argyfyngau Sifil a Gwasanaethau'r Ddinas yn cael ei chynnal i ystyried yr effeithiau posibl.
- 13.3 Bydd y cynllun hwn yn cael ei weithredu i gyfeiriad Swyddog Aur ar Ddyletswydd CDC yn dilyn briff gan yr Uned Argyfyngau Sifil a/neu Wasanaethau'r Ddinas ar yr effeithiau disgwylidig ar ardal Casnewydd.
- 13.4 Yn unol â chynlluniau Rheoli Argyfyngau a Pharhad Busnes generig y Cyngor, bydd y cynllun hwn yn cael ei weithredu'n hyblyg ac yn gymesur â natur bosibl y digwyddiad. Mae agenda ddrafft ar gyfer cyfarfod cychwynnol y Tîm Ymateb i Argyfyngau wedi'i nodi yn Atodiad A.

14 CYFATHREBU

- 14.1 Mae cyflwyno rhybuddion ymlaen llaw, mesurau paratoadol a threfniadau ymateb i argyfyngau'n hanfodol drwy gydol gwahanol gamau digwyddiad tywydd garw. Mae cyfathrebu o'r fath yn ymwneud ag aelodau etholedig, staff, cwsmeriaid, cleientiaid, contractwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- 14.2 CYFATHREBU CORFFORAETHOL
- 14.2.1 Bydd y brif rôl gyfathrebu'n cael ei harwain gan y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol (TCC) ar y cyd â Chanolfan Gyswllt y Ddinas. Mae gan y TCC ystod o gamau posibl y gellir eu rhoi ar waith i helpu gyda chyflwyno gwybodaeth a chynghor ac mae'r rhain yn cynnwys:
- Diweddarau gwefan CDC gan gynnwys baner sgrolio ar y dudalen flaen sy'n cysylltu â manylion ategol;
 - Diweddarau gwybodaeth ar y fewnrwyd;
 - Bwletinâu e-bost i staff;
 - Defnyddio'r cyfryngau (h.y. defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i rannu arweiniad ynglŷn â gwybodaeth gan ffynonellau dibynadwy y gellir ymddiried ynddynt);
 - Rhoi diweddariadau i'r Orsaf Wybodaeth, Canolfan Gyswllt y Ddinas / y Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau i helpu i ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd a staff.
- 14.2.2 Er y bydd y fath gyfathrebiadau yn berthnasol i natur y tywydd garw, gallai hefyd gynnwys pynciau fel a ganlyn:
- Iechyd a diogelwch staff;
 - Iechyd a diogelwch defnyddwyr gwasanaeth;
 - Diogelu'r cyhoedd;
 - Newidiadau i wasanaethau'r Cyngor;
 - Cyngor i'r cyhoedd ar eu hymateb posibl i'r tywydd garw e.e. cynorthwyo cymdogion gyda phroblemau symud; ac unigolion sy'n clirio eira / iâ ar balmentydd o'r tu allan i'w heiddo neu eu busnesau eu hunain;
 - [\[ARCHIVED CONTENT\] Clearing snow and ice from pavements yourself : Directgov - Newsroom](#);
 - Dolen Gov.uk: [Clearing snow from a road, path or cycleway](#)
 - Defnyddio graean o finiau a ddarperir gan y Cyngor yn briodol;
 - Annog y gymuned leol i roi cymorth i bobl sy'n agored i niwed / y rhai sydd angen cymorth, pan fydd yn ddiogel gwneud felly.
- 14.2.3 Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth brydlon a chywir ar gael drwy'r systemau hyn, ar gyfer staff a'r cyhoedd, bydd yn hanfodol i wasanaethau roi'r wybodaeth ddiweddaraf briodol am unrhyw newidiadau i'r ffordd arferol o ddarparu gwasanaethau.

- 14.2.4 Er y gall gwasanaethau ddiweddarau eu tudalennau gwe perthnasol, bydd diweddarau cyfathrebu corfforaethol yn bwysig ar gyfer y dudalen flaen a'r trosolwg corfforaethol. Felly, pan fydd newidiadau, o ganlyniad i'r tywydd, i drefniadau gwasanaeth, mae'n rhaid i wasanaethau roi gwybod am unrhyw newidiadau cychwynnol a rhai sy'n mynd rhagddynt i:
- public.relations@newport.gov.uk
- CCC.Admin@newport.gov.uk
- 14.2.5 Yn ystod tywydd garw, gall y Cyngor ddisgwyl mwy o ymholiadau. Gallai'r TYA Corfforaethol benderfynu annog y cyhoedd i gysylltu â'r Cyngor ynghylch cymorth arbenigol e.e. i'r rhai sy'n agored i niwed yn y gymuned, pe bai'r sefyllfa'n cyfiawnhau hynny. Bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud ar y cyd â rheolwyr Canolfan Gyswllt y Ddinas.
- 14.2.6 Hefyd, gellir dosbarthu gwybodaeth i'r cyhoedd drwy wefan CDC a bydd hyn yn cael ei wneud gan bersonél Cyfathrebu Corfforaethol. Bydd y "llinell gymorth" ar gael dan drefniadau generig gan ddefnyddio adnoddau Canolfan Gyswllt y Ddinas.
- 14.2.7 Mae tîm Cyfathrebu Corfforaethol CDC hefyd yn rhedeg cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar Twitter a Facebook y gellir eu defnyddio fel sianeli gwybodaeth i'r cyhoedd mewn perthynas â thywydd garw
- 14.2.8 Os gwneir y penderfyniad ar lefel gorfforaethol i roi'r Cynllun Tywydd Garw ar waith yna bydd Swyddog Aur ar Ddyletswydd CDC yn sicrhau bod Tîm Ymateb i Argyfyngau Corfforaethol tywydd garw yn cyfarfod cyn gynted â phosibl i gytuno ar strategaeth a chyfathrebu.
- 14.2.9 Swyddog Aur ar Ddyletswydd CDC fydd yn gyfrifol am gytuno ar ddatganiadau i'r wasg a briffiau i Gynghorwyr.
- 14.2.10 Pan fo tywydd garw, mae'n bosibl y bydd Swyddfa'r Cabinet/Llywodraeth Cymru yn rhoi "Briffiau Pwysig" bob dydd. Roedd y rhain yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a chyngor i awdurdodau am faterion fel: trafnidiaeth, llifogydd, cyflenwad ynni, materion iechyd/y GIG, effeithiau busnes, taliadau tywydd oer, ysgolion a gwastraff. Bydd Unedau Argyfyngau Sifil yn anfon y briff cyntaf at y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Strategol, Penaethiaid Gwasanaeth a'r adran Cyfathrebu Corfforaethol. Wedi hynny, caiff copiâu eu rhannu gyda'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i wasanaethau yn ôl yr angen, o bosibl drwy strwythur y Tîm Ymateb i Argyfyngau Corfforaethol.
- 14.2.11 Yn unol â'r trefniadau generig o ran argyfyngau, bydd y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol hefyd yn gweithredu fel cyswllt â phartneriaid allanol megis Heddlu Gwent a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datganiadau cyhoeddus/cyfryngau ar faterion asiantaethau ac ardaloedd eang ar y cyd.

14.3 YSGOLION

- 14.3.1 Mae gan y gwasanaeth addysg weithdrefn fanwl ar waith gydag ysgolion er mwyn sicrhau, yn dilyn asesiad risg, bod CDC yn cael ei gynghori gan Benaethiaid ar eu penderfyniadau ynghylch agor/cau ysgolion. Mae gweithdrefn y Gwasanaeth Addysg yn cydlynu'r wybodaeth a dderbynnir a thrwy Gyfathrebu Corfforaethol mae'r wybodaeth honno ar gael yn gyflym ar wefan CDC a'r cyfryngau. Mae cymorth gyda chlirio eira ar gael i ysgolion gweler paragraff 15.1.9 isod.

15 GRAEANU A CHLIRIO EIRA

15.1 GWASANAETHAU'R DDINAS

- 15.1.1 Mae Cynllun Gwasanaeth y Gaeaf Corfforaethol Gwasanaethau Dinas y Cyngor yn nodi'r llwybrau sydd â blaenoriaeth o ran gweithrediadau graeanu a chlirio eira'r Cyngor Nodir y llwybrau sydd â blaenoriaeth a lleoliad y biniau graean ar wefan y Cyngor hefyd:
- https://fy.newport.gov.uk/myNewport_wa.aspx (Dewis: Mapiau: Categoriâu Mapiau: Strydlun: Biniau Graean / Llwybrau Graeanu)
- 15.1.2 Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dyblygu yn y cynllun hwn, fodd bynnag dylid nodi bod newidiadau diweddar yn sicrhau y gwneir y gwaith hwn mewn lleoliadau allweddol y gwasanaethau brys ac y cysylltir canolfannau trafniadaeth â chyrtiau blaen gorsafoedd bysus/trenau. Mae'r cynllun eisoes yn cwmpasu graeanu'r holl brif lwybrau bysus. Mae hefyd yn cynnwys clirio llwybrau i safleoedd pwysig y Cyngor er bod y rhain, i raddau helaeth, yn amrywio o ran blaenoriaethu posibl.
- 15.1.3 Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd stociau o halen cyn y gaeaf sy'n ddigonol ar gyfer tua 30 o rediadau ar hyd y llwybr llawn ar lefel weithredu safonol. Mae'r cynllun cynnal a chadw yn ystod y gaeaf yn nodi bod o leiaf 14 diwrnod o wydnwch ar waith i raeau cyn lleied â phosibl (4 triniaeth y dydd) ar y rhwydwaith llwybrau graeanu strategol. Pan fydd angen, gellir newid y trefniadau er mwyn lleihau faint o'r stociau halen a ddefnyddir. Caiff mesurau o'r fath eu rhoi ar waith pan fydd lefelau stociau wedi gostwng a'r gadwyn gyflenwi yn annigonol i gyfateb i'r galw gweithredol.
- 15.1.4 Mae'r rhan fwyaf o stociau halen CDC yn dod o gontractwr mawr yn y DU. Mae'r Cyngor hefyd wedi cytuno i drefniadau Cymru gyfan a gydlynwyd gan CLILC a Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu stociau ychwanegol. Gall y trefniadau Cymru gyfan hyn hefyd hwyluso'r broses o sefydlu system cyd-gymorth os bydd angen. Mewn achos o darfu mawr ar y gadwyn gyflenwi, caiff trefniadau wrth gefn "Salt Cell" Llywodraethau Cymru a'r DU eu rhoi ar waith i benderfynu a ddylid blaenoriaethu stociau.
- 15.1.5 Yn ogystal â'r stociau halen canolog, mae biniau graean cymunedol wedi'u lleoli'n strategol ledled y ddinas. Eto, mae nifer y rhain wedi'u cynyddu ac maent yn cael eu hail-lenwi'n aml yn ôl yr angen. Yn ystod cyfnodau pan fo cyflenwadau llai gan gontractwyr allanol gall hyn, hyd yn oed ar ôl cyflwyno "torri" gyda thywod i leihau'r defnydd o stoc, fod yn anghynladwy.

- 15.1.6 Yng nghanol y ddinas a lleoliadau addas eraill mae'r Cyngor yn defnyddio peiriannau chwistrellu dŵr hallt i leihau'r risg a grëir gan iâ/rhew.
- 15.1.7 Gan ddibynnu ar adnoddau a blaenoriaethau cystadleuol, bydd y Cyngor yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau partner allweddol megis Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (YGAC) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), i ehangu'r gwaith o raeanu ffyrdd i gwmpasu'r gwaith o symud cleifion sydd â gofynion meddygol brys e.e. triniaethau, llawdriniaethau, cemotherapi neu ddialysis. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'r partner allanol yn gofyn am weithredu'r trefniadau hyn ac yn sicrhau eu bod yn cynnal systemau i gydlynu a blaenoriaethu ceisiadau o'r fath.
- 15.1.8 Cydnabyddir y gallai fod yn rhaid cyfyngu ar ehangu'r gwasanaeth yn y fath fodd a'i fonitro'n ofalus yn erbyn natur newidiol y sefyllfa, yr adnoddau a'r blaenoriaethau.
- 15.1.9 Mae gan Wasanaethau'r Ddinas drefniadau cytundebol ar waith gyda gwahanol wasanaethau a phartneriaid allanol i gynorthwyo â gweithrediadau clirio eira mewn sefydliadau lluosog. Mae'r rhain yn cynnwys rhai ysgolion, cyfadeiladau tai gwarchod, mynwentydd a sefydliadau hamdden. Pan fydd angen, mae'r gwaith o flaenoriaethu gweithrediadau yn cyd-fynd â'r egwyddorion a nodir yn nhrefniadau parhad busnes y Cyngor.
- 15.1.10 Mae'r Safle Amwynder Dinesig yn cadw stociau o halen/graeau i sicrhau parhad ei weithrediadau.

15.2 BLAENORIAETHU LLWYBRAU

- 15.2.1 Mae Cynllun Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf Corfforaethol Gwasanaethau Dinas y Cyngor yn gosod blaenoriaeth angenrheidiol i ddiogelu teithio diogel ar llwybrau priffyrdd â blaenoriaeth a lleoliadau gwasanaethau brys allweddol. Pan nad yw llwybrau wedi'u gorchuddio, anogir busnesau a gweithredwyr o fewn yr ardaloedd hyn i sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau parhad busnes digonol e.e. ar gyfer eu stociau halen/graeau eu hunain er mwyn iddynt amharu cyn lleied â phosibl ar eu gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi ystyried, a bydd yn parhau i ystyried, graeanu llwybrau a lleoliadau eraill e.e. llwybrau mynediad i barciau diwydiannol, cyfleusterau manwerthu, safleoedd bysus, beicffyrdd a llwybrau cerdded. Fodd bynnag, gwneir hyn dim ond pan nad yw'n amharu ar y gwaith o ddiogelu llwybrau â blaenoriaeth uchel y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

15.3 CERBYDAU 4X4

- 15.3.1 Mae gan y Cyngor fflyd o gerbydau 4x4 sydd ar gael i'w hadleoli yn ystod tywydd garw. Caiff unrhyw waith adleoli o'r fath ei wneud i helpu i gyflawni ymateb y Cyngor i'r argyfwng neu i gefnogi parhad ei wasanaethau hanfodol.
- 15.3.2 Bydd gwasanaethau sydd angen cerbydau 4x4 yn ceisio yn y lle cyntaf i adleoli cerbydau y maent yn eu rheoli. Pan nad yw hyn yn ymarferol, gellir gwneud cais drwy eu Pennaeth Gwasanaeth neu uwch reolwr dynodedig perthnasol i Uned Trafnidiaeth Integredig y Cyngor, sydd wedi'i leoli yn Nepo Telford Street, a fydd yn cydlynu'r broses o flaenoriaethu a dyrannu. Er mwyn awdurdodi a blaenoriaethu, mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n

sicrhau eu bod yn cydlynu ceisiadau gan eu staff cyn gwneud unrhyw geisiadau i'r Uned Trafnidiaeth Integredig – gweler Atodiad B.

- 15.3.3 Mae'r rhan fwyaf o'r fflyd bresennol o gerbydau 4x4 eisoes wedi'i ddyrannu i'r gwasanaethau sy'n hollbwysig pan fo tywydd garw. Gallai adleoli'r cerbydau hyn dros dro fod yn ymarferol o hyd a chaiff ei brocera gan yr Uned Trafnidiaeth Integredig gyda'r gwasanaethau perthnasol. Mae ychydig o gerbydau 4x4 wedi'u dyrannu ar hyn o bryd i wasanaethau nad ydynt yn hanfodol O ganlyniad, y rhain fydd y rhai cyntaf i gael eu hadleoli. Eto, bydd yr Uned Trafnidiaeth Integredig yn brocera unrhyw drefniadau adleoli o'r fath. Ceir rhestr ddangosol o geisiadau tebygol am gerbydau 4x4 o fewn yr Awdurdod yn Atodiad D.
- 15.3.4 Yn ystod oriau swyddfa estynedig (07:30 -17:30), rhaid i Wasanaeth e-bostio ceisiadau i'r Uned Trafnidiaeth Integredig gan ddefnyddio'r profforma sydd wedi'i atodi yn Atodiad C. Rhaid i bob cais gael ei ategu gan alwad ddilynol i'r Uned Trafnidiaeth Integredig.
- 15.3.5 Ar gyfer ceisiadau **Brys** y tu allan i'r oriau uchod, gall galwadau gael eu gwneud drwy drefniadau y tu allan i oriau arferol y Cyngor a fydd yn eu trosglwyddo wedyn i'r Swyddog Priffyrdd ar Ddyletswydd i'w hystyried/gweithredu.
- 15.3.6 Bydd pob cerbyd a ddarperir trwy'r system hon yn dod gyda gyrrwr sydd â phrofiad o ddefnyddio'r cerbyd (y gyrrwr arferol fel arfer).
- 15.3.7 Gellir ategu fflyd presennol y Cyngor o gerbydau 4x4 trwy logi cerbydau ychwanegol. Rhaid gwneud hyn drwy'r system llogi ceir arferol er mwyn cydlynu a blaenoriaethu unrhyw geisiadau o'r fath yn erbyn yr adnoddau sy'n gyfyngedig. Bydd yr Uned Trafnidiaeth Integredig yn cydlynu'r broses hon os oes angen. Pan ddefnyddir cerbydau llogi, rhaid i wasanaethau sicrhau bod y gyrrwr bwriadedig wedi'i hyfforddi'n addas neu â phrofiad addas o ddefnyddio cerbydau 4x4 mewn amodau o'r fath.
- 15.3.8 Gall y Cyngor, os yw'n hanfodol, ofyn am gymorth 4x4 pellach gan asiantaethau partner, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol arbenigol. Bydd yr Uned Trafnidiaeth Integredig yn tynnu sylw at unrhyw ofyniad o'r fath gyda'r TYA Corfforaethol. Wedyn caiff cymorth o'r fath ei gydlynu drwy drefniadau Grŵp Cydlynu Tactegol / Strategol Gwent.
- 15.3.9 Pan ofynnir am gymorth 4x4 dylid rhagdybio y bydd y gwasanaeth sy'n darparu'r cerbydau yn codi tâl perthnasol ar y gwasanaeth sy'n gwneud y cais. Mae'n bosibl y bydd Swyddog Aur ar Ddyletswydd CDC / y TYA Corfforaethol yn penderfynu hepgor y drefn codi tâl hon. Pan fydd gwasanaethau'n hwyluso ceisiadau'n fewnol, efallai y byddant yn penderfynu p'un ai a ddylid codi tâl.
- 15.3.10 Pan nad oes digon o gerbydau 4x4 a bod eu hangen oherwydd y tywydd, gallai'r Cyngor ystyried rhoi teiars y gaeaf ar gerbydau eraill i helpu gyda pharhad busnes a'r ymateb i'r argyfwng. Bydd yr Uned Trafnidiaeth Integredig yn cydlynu'r broses hon os oes angen.

16 ADEILEDDAU A CHOED PERYGLUS

- 16.1 Os bydd tywydd garw yn arwain at gyflwyno adroddiadau am adeiladau annïogel, bydd yr adran Rheoli Adeiladau'n ymchwilio iddynt a, phan fo'n briodol, yn rhoi camau ar waith i geisio sicrhau diogelwch y cyhoedd.
- 16.2 Os bydd tywydd o'r fath yn arwain at adroddiadau am goed peryglus e.e. wedi cwmpo ar draws y briffordd, neu fel arall yn effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd, gall Gwasanaethau'r Ddinas, naill ai gan ddefnyddio staff y cyngor neu gontractwyr, anfon adnoddau arbenigol i'r safle i'w wneud yn ddiogel neu i gael gwared ar y perygl.

17 MANYLION CYSWLLT

- 17.1 Yn rhan o'i drefniadau generig, mae'r Cyngor yn cynnal system strwythuredig o fanylion cyswllt. Caiff y rhestr o Gysylltiadau Brys Corfforaethol ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn ac mae'n rhoi manylion cyswllt 24 awr i staff allweddol y Cyngor all fod â rôl uniongyrchol wrth roi ymateb CDC i argyfwng ar waith. Mae gan yr UAS hefyd gronfa ddata fwy cynhwysfawr o bob cyswllt allanol perthnasol, y mae copïau ohoni ar gael i bob Swyddog ar Ddyletswydd UAS Mae gan bob gwasanaeth drefniadau cyswllt ar gyfer pob rheolwr ac mae gan bob rheolwr drefniadau cyswllt ar gyfer pob gwasanaeth.

18 CYSYLLTIADAU Â GWIRFODDOLWYR

- 18.1 Pan fydd partneriaid o'r sector gwirfoddol yn rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar ran y Cyngor, rhaid i wasanaethau sicrhau eu bod yn ystyried eu hanghenion am gymorth arbenigol e.e. cerbydau 4x4.
- 18.2 Pan y gall fod angen cymorth ychwanegol i sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu, dylai pob gwasanaeth ystyried cymorth posibl gan y sector gwirfoddol. Rhaid i bob cais am gymorth o'r fath gael ei sianelu drwy'r Tîm Ymateb i Argyfyngau Corfforaethol i sicrhau gwaith cydlynu a blaenoriaethu priodol.

19 IECHYD A DIOGELWCH (IaD)

- 19.1 Mae iechyd a diogelwch gweithwyr sy'n gweithredu yn ystod tywydd garw yn parhau i fod o'r pwys mwyaf.
- 19.2 Mae'n hanfodol bod pob gwasanaeth yn ystyried gofynion iechyd a diogelwch posibl, ar gyfer gweithwyr a chleientiaid, mewn tywydd garw. Pan fo gwasanaethau'n hanfodol i gleientiaid, mae'n hanfodol bod ystyriaeth sylweddol yn cael ei rhoi o ran sicrhau y gall gwasanaethau o'r fath barhau tra'n diogelu iechyd a diogelwch gweithwyr. I'r gwrthwyneb, pan nad yw gwasanaethau'n hanfodol ac yn enwedig pan na ellir diogelu eu parhad yn rhesymol gyda mesurau iechyd a diogelwch priodol ar gyfer staff a chleientiaid, rhaid ystyried yr angen i barhau gwasanaethau o'r fath a'r amgylchiadau ar gyfer eu hailddechrau.

- 19.3 Dylai rheolwyr adolygu'r holl asesiadau risg perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried materion sy'n debygol o godi yn ystod tywydd garw. Dylid talu sylw arbennig i'r canlynol:
- Rhoi gwybodaeth gywir a chyfredol am amodau'r tywydd i staff, a chyngor ar ei effaith ar lefelau risg;
 - Hyfforddiant staff i sicrhau cymhwysedd i gyflawni tasgau hanfodol yn ddiogel, yn enwedig gyda llai o staff;
 - Y tebygolrwydd o fwy o weithio unigol;
 - Effaith tywydd garw (poeth iawn ac oer iawn) ar staff sydd â chyflyrau meddygol hysbys;
 - Yr angen i staff gymryd egwylliau priodol;
 - Sut mae cyfarpar (gan gynnwys TG a ffonau), offer, deunyddiau a cherbydau'n gweithredu ar dymheredd isel neu uchel, neu yn ystod tywydd gwlyb;
 - Darparu cyfarpar diogelu personol (CDP) sy'n addas i'w ddefnyddio yn ystod tywydd garw, gan gynnwys tymheredd uchel;
 - Materion iechyd a diogelwch a allai effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod tywydd garw;
 - A yw gweithio ystwyth yn cynnig cyfleoedd i gynnal gwasanaethau heb fod yn rhaid i staff fod yn agored i beryglon a gyflwynir gan dywydd garw.
- 19.4 Mae'n amhosib rhagweld pob sefyllfa a pharatoi ar ei chyfer. Felly dylai rheolwyr sicrhau bod cyflogeion yn gymwys i asesu risgiau wrth iddynt godi, ac i roi camau priodol i'w cadw eu hunain, eu cydweithwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 19.5 Dylai Rheolwyr Safleoedd a Phenaethiaid geisio cyngor lechyd a Diogelwch wrth ddefnyddio personél/gwirfoddolwyr allanol (nad ydynt yn rhai'r Cyngor) i wneud unrhyw waith clirio eira/rhew. Gall gwaith clirio sy'n cynnwys peiriannau trwm fod yn beryglus iawn a dim ond pobl gymwys ddylai ei drefnu a'i wneud.

20 CYLLID

- 20.1 Mae'r trefniadau ariannol cyffredinol ar gyfer yr ymateb i dywydd garw wedi'u nodi yng Nghynlluniau Rheoli Argyfyngau Corfforaethol y Cyngor a Gwasanaethau.

21 GWASANAETHAU CYFATHREBU A GWYBODAETH

- 21.1 Mae tywydd garw'n creu galw sylweddol uwch ar systemau cyfathrebu gan y cyhoedd a staff. Dim ond drwy gynllunio ymlaen llaw y gellir rheoli galw o'r fath yn effeithiol. Mae defnyddio trefniadau gweithio ystwyth, er y caniateir hynny dan bolisiau presennol AD, yn codi nifer o faterion posibl o ran iechyd a diogelwch, diogelwch gwybodaeth, a gallu'r system. Rhaid i wasanaethau a rheolwyr awdurdodi perthnasol ystyried ymlaen llaw faterion o'r fath a'u polisiau cysylltiedig, os bydd gweithio ystwyth yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ar adeg unrhyw ddigwyddiad o'r fath.

22 ADFER

- 22.1 Nodir trefniadau adfer yng Nghynllun Rheoli Argyfyngau Corfforaethol y Cyngor a Chynllun Adfer Fforwm Lleol Cymru Gwydnwch Gwent. Gellir cael mynediad i'r dogfennau hyn gan yr Uned Argyfyngau Sifil.

23 IS-RADDIO/CANSLO'R DIGWYDDIAD

- 23.1 Penderfyniad corfforaethol fydd hwn drwy'r TYA. Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn sicrhau:
- Bod pob aelod o staff a roddwyd gwybod iddynt cyn yr ymateb yn cael gwybod am israddio/canslo'r digwyddiad;
 - Bod pob rheolwr wedi sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod y bydd ôl-drafodaethau'n cael eu trefnu.

24 ÔL-DRAFODAETH

- 24.1 Ar ôl i'r tywydd garw fynd heibio, mae'n bwysig adolygu ymateb y Cyngor a sicrhau bod unrhyw wersi posibl yn cael eu nodi. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gynnal sesiynau ôl-drafodaeth ffurfiol. Bydd gofyn i wasanaethau gael ôl-drafodaeth cyn yr ôl-drafodaeth gorfforaethol ac unrhyw ôl-drafodaethau/adolygiadau aml-asiantaeth.

AGENDA DRAFFT AR GYFER CYFARFOD CYCHWYNNOL Y TÎM YMATEB I ARGYFYNGAU

1. Sicrhau bod Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifennu nodiadau o'r cyfarfod ac yn cofnodi'r holl benderfyniadau allweddol a'r rhesymu ategol
2. Cyflwyniadau
3. Adolygu aelodaeth
4. Y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion Grŵp Cydlynu Tactegol/Strategol yr asiantaethau ar y cyd
5. Asesiad o'r tywydd a ragwelir/cyfredol fel y bo'n briodol
6. Adolygiad gan bob gwasanaeth o'r mesurau lliniaru/ymateb i argyfwng posibl a/neu'r rhai a weithredir
7. Adolygiad gan bob gwasanaeth o'r mesurau lliniaru/parhad busnes posibl a/neu'r rhai a weithredir
8. Penderfynu ar faterion lliniaru/ymateb Corfforaethol:
 - a. Graddfa a strwythur cychwynnol y tîm(au) ymateb i argyfyngau
 - b. Dynodi Arweiniad y TYA
 - c. Iechyd a diogelwch staff sy'n ymwneud ag ymateb i argyfyngau a pharhad busnes
 - d. Iechyd a diogelwch defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu heffeithio gan dywydd garw
 - e. Strategaeth gyfathrebu ar gyfer staff, y cyhoedd, aelodau, cwsmeriaid, cleientiaid, contractwyr, busnesau, y cyfryngau, y ganolfan gyswllt, y llinell gymorth, gwefan
 - f. Adnoddau – rhannu, cydlynu a blaenoriaethu e.e. cerbydau 4x4
 - g. Cyd-gymorth mewn perthynas â sefydliadau partner/ALI eraill e.e. cymorth i gleifion dialysis
 - h. Diffinio a chytuno ar y strategaeth gorfforaethol ar gyfer lliniaru/ymateb
 - i. Gweithio ar y cyd â phartneriaid e.e. cydlynu ymweliadau cartref gyda'r adran Iechyd a Gofal cymdeithasol
9. Cyllid – ystyried y goblygiadau ariannol cychwynnol a phosibl a'r trefniadau ar gyfer cydlynu a rheoli
10. Adfer – ystyried yr angen i sefydlu grŵp adfer (gellir ei ohirio nes y cam effaith/ymateb i argyfwng
11. Briffio aelodau etholedig/cymeradwyaeth ar gyfer mesurau lliniaru/ymateb
12. Adolygu a chofnodi camau gweithredu allweddol a gytunwyd
13. Cytuno ar amserlen gychwynnol ar gyfer cyfarfodydd

STRATEGAETH GORFFORAETHOL - PWYNTIAU I'W HYSTYRIED


Bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddefnyddio'i adnoddau i gydweithio ag eraill er mwyn helpu gyda'r canlynol:

- amddiffyn bywyd
- cynnal gwasanaethau hanfodol i'r gymuned, yn arbennig, ond nid o reidrwydd yn gyfan gwbl, mewn perthynas â gwasanaethau hanfodol y Cyngor ei hun
- sicrhau bod yr ymateb i'r argyfwng yn cefnogi'r rhai y mae'r tywydd garw wedi effeithio arnynt
- y mesurau lliniaru y gellir eu cyflawni'n rhesymol i leihau'r risg, neu'r effaith, ar y gymuned a gwasanaethau'r Cyngor
- y gwaith o adfer y gymuned mewn modd cyd-drefnedig, effeithiol ac amserol yn dilyn effaith sylweddol y tywydd garw.

ATODIAD B

SIART LIF ARWEINIOL AR GYFER GOFYN AM GYMORTH 4X4

Os yw'r cais, ar ôl dilyn y siart llif, yn dal i fod yn gyfiawnadwy, cwblhewch y ffurflen, sydd yn Atodiad C a'i hanfon ymlaen i'r adran Strydlun drwy Dutyofficer.Streetscene@newport.gov.uk (Mae'r Uned Trafnidiaeth Integredig a'r Swyddogion ar Ddyletswydd yr adran Priffyrdd yn cael mynediad i'r cyfeiriad e-bost hwn)



ATODIAD C

CEISIADAU AM GYMORTH 4X4

Dyddiad:

Amseroedd y mae ei angen	Gwasanaeth a Natur yr Argyfwng	Cyswllt CDC	Cyfeiriad Enw(au)'r Rhai Fydd Yn Casglu Gan Gynnwys Cod Post	Rhif(au) Ffôn Cyswllt:	Cyfeiriad a Rhif Ffôn Cyswllt y Cyrchfan	Ceisiadau arbennig e.e. mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn, offer anadlu, angen rhywun i hebrwng.	Cerbyd a ddyrennir

ANFONWCH Y CAIS DRWY E-BOST I: Dutyofficer.Streetscene@newport.gov.uk

ATODIAD D

CEISIADAU CYN-GOFRESTREDIG 4X4 AM GYMORTH

GWASANAETH	ADRAN	CAIS
Gwasanaethau'r Ddinas	Gorsaf wybodaeth a Chanolfan Gyswllt y Ddinas (CCC)	Helpu "gweithredwyr" i deithio i / o'r Orsaf Wybodaeth a Chanolfan Gyswllt y Ddinas (ymgorfforwyd y CCC yn yr orsaf wybodaeth ar ddechrau 2012)
Y Gyfraith a Rheoleiddio	Cofrestryddion	Helpu cofrestryddion i deithio er mwyn redeg gwasanaethau priodasau
Y Gyfraith a Rheoleiddio	Y Swyddfa Etholiadol	Helpu staff etholiadau i deithio i/o orsafoedd pleidleisio / cyfrifo
Adfywio, Buddsoddi a Thai	Digartrefedd	Helpu Swyddogion Digartrefedd i deithio i / o'r brif leoliad gwaith er mwyn gwneud gwaith ailgartrefu brys
Addysg	Ysgolion	Helpu disgyblion sy'n methu gadael yr ysgol i deithio adref
Casnewydd Fyw / Y Gwasanaethau Cymdeithasol / RIH	Canolfan Orffwys Frys	Cymorth i sicrhau bod digon o staff yn y ganolfan orffwys / canolfannau gorffwys
RIH	Archwiliadau	Cymorth i sicrhau bod goruchwylwyr yn mynychu lleoliadau arholiadau trwyddedig

DOGFENNAU CYFEIRIO ALLWEDDOL

Paratowyd y cynllun hwn gan ddefnyddio nifer o ddogfennau cyfeirio allweddol fel y rhestrir isod:

- Cynllun Rheoli Argyfyngau Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd 2018
- Cynllun(au) Parhad Busnes Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd
- Cynllun Cynnal a Chadw yn Ystod y Gaeaf Gwasanaethau Dinas Cyngor Dinas Casnewydd
- Trosolwg Cyngor Dinas Casnewydd ac Adolygiadau y Fforwm Craffu o: Cynnal a Chadw yn Ystod y Gaeaf 2009/10; a chau ysgolion oherwydd tywydd garw 2009/10
- Adroddiad Fforwm Cymru Gydnerth - Tywydd Garw'r Gaeaf yng Nghymru 2009/10
- Y Gymdeithas Llywodraeth Leol - Dod drwyddi a Dod drwyddi II - gwella gallu'r DU i wrthsefyll tywydd garw'r gaeaf
- Gwydnwch Systemau Trafnidiaeth Lloegr yn y Gaeaf - Adolygiad Annibynnol – Adroddiad Dros Dro Gorffennaf 2010 ac Adroddiad Terfynol Hydref 2010
- Cynlluniau Fforwm Gwydnwch Lleol Gwent:
 - Cynllun Tywydd Garw F2 Tachwedd 2017.
 - Trefniadau Ymateb i Ddigwyddiadau Mawr Gwent
 - Cynllun Adfer Gwent
 - Trefniadau Rhybuddio a Hysbysu Gwent